# Diwygio'r Canfas Blynyddol

# Datganiad Polisi

Medi 2019

# TABL CYNNWYS

1. Cyflwyniad 3
2. Trosolwg 3
Y Canfas Presennol 3
Amcanion Diwygio'r Canfas 5
3. Y Model Canfasio Newydd 6
**Crynodeb** 6
Y Cam Paru Data 8
Paru data cenedlaethol 10
Paru data lleol 10
Eithrio o'r cam paru data 11
Defnyddio canlyniadau'r cam paru data 11
4. Llwybr 1 – Y Llwybr Eiddo wedi'i Baru 14
Trosolwg 14
E-gyfathrebu o dan Lwybr 1 14
Anfon cyfathrebiadau ysgrifenedig i'r Eiddo o dan Lwybr 1 (Cyfathrebiad Canfasio A) 15
5. Llwybr 2 – Y Canfas Eiddo heb ei Baru 17
Trosolwg 17
Y cylch tri chyswllt 18
6. Llwybr 3 – Y Llwybr Eiddo Diffiniedig 20
Trosolwg a chymhwysedd 20
Proses canfasio Llwybr 3 21
7. Prawf Data Diwygio'r Canfas 22

# 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r ddogfen hon yn darparu trosolwg ar ddiwygiadau arfaethedig i wella'r canfas blynyddol o etholwyr a gynhelir gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol (SCEau) ledled Prydain Fawr. Mae'r datganiad polisi terfynol hwn yn adlewyrchu'r adborth a gafwyd o'r ymgynghoriad ar y cynigion polisi yn ystod hydref 2018 yn ogystal ag adborth o'r ymgynghoriadau statudol gyda'r Comisiwn Etholiadol, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, a thrafodaethau rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban. Mae crynodeb o'r ymateb i'r ymgynghoriadau hyn yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r datganiad hwn. Y bwriad yw gweithio gyda rhanddeiliaid a'r gweinyddiaethau datganoledig i roi'r cynigion hyn ar waith cyn y canfas yn 2020 ledled Prydain Fawr.

# 2. Trosolwg

## Y Canfas Presennol

2.1. Mae'r canfas presennol yn casglu gwybodaeth am ychwanegiadau, newidiadau a dileadau dichonol yn y gofrestr. Ers cyflwyno Cofrestru Etholiadol Unigol (IER) yn 2014, mae angen cymryd camau pellach fel arfer cyn gwneud newidiadau yn y cofrestrau etholiadol ar sail y wybodaeth hon. Felly, nid yw'r canfas blynyddol yn broses cofrestru ar ei phen ei hun bellach, er ei fod yn rhan o ddyletswyddau cofrestru ehangach y Swyddogion Cofrestru Etholiadol (SCEau). Rhaid i SCEau ysgrifennu at etholwyr newydd dichonol yn unigol i'w gwahodd i wneud cais am gofrestru, a chadarnhau pwy ydynt, cyn y gellir eu hychwanegu at y gofrestr. Mae'r broses hon yn sefyll ar wahân i'r canfas blynyddol ond gellir ei chynnal yr un pryd, a hynny fydd yn digwydd fel arfer.

2.2. Er bod y canfas presennol yn cyflawni ei amcanion yn effeithiol at ei gilydd, derbynnir yn gyffredinol ei fod yn anhwylus ac yn hen ffasiwn. Nid yw'r dull unffurf o weithredu, sy'n cynnwys nifer o gamau penodedig, yn rhoi nemor ddim ystyriaeth i wahaniaethau rhwng ardaloedd cofrestru ac oddi mewn iddynt. Mae'n cael ei gyflawni ar bapur i raddau helaeth, mae'n gymhleth ei weinyddu ac mae'n mygu arloesedd. Mae'n glir hefyd fod y broses bresennol yn arwain at ddryswch i'r dinesydd.

2.3. Nid yw'r canfas blynyddol yn ddim ond un o blith nifer o ffyrdd i'r SCE allu dod o hyd i wybodaeth i ddiweddaru ei gofrestr etholiadol. Fe'i cynhelir ochr yn ochr â gweithgareddau a gyflawnir drwy'r flwyddyn fel cloddio setiau data eraill (er enghraifft, cofnodion y dreth gyngor) i adnabod preswylwyr sydd heb eu cofrestru i bleidleisio ar hyn o bryd, a gwaith targedu penodol ar gyfer grwpiau penodol. Ers

cyflwyno cofrestru etholiadol ar-lein yn 2014, gwelwyd symud hefyd at gofrestru wedi'i sbarduno gan ddigwyddiadau, lle mae miliynau o geisiadau bellach yn cael eu gwneud yn y cyfnod cyn pleidleisiau. Fodd bynnag, ni chynhaliwyd unrhyw bleidleisiau cenedlaethol mawr yn 2018 ac mae data a gafwyd gan Wasanaeth Digidol IER yn dangos bod nifer y ceisiadau am gofrestru wedi bod yn fwy o lawer yn ystod y canfas nag yn y blynyddoedd cyn hynny. Mae hyn yn cadarnhau bod y canfas blynyddol yn parhau'n bwysig o ran cadw cofrestrau etholiadol yn gywir a chyflawn bob blwyddyn.

2.4. Mae'n ofynnol i SCEau ym Mhrydain Fawr gynnal canfas blynyddol o'r holl eiddo preswyl yn yr ardal y maent yn gyfrifol amdani.

2.5. Mae adran 9A o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (DCB 1983) yn rhoi SCEau o dan ddyletswydd i gynnal y gofrestr etholiadol ar gyfer eu hardal. Mae adran 9D o DCB 1983 yn ei gwneud yn ofynnol i SCEau gynnal canfas blynyddol o'r holl eiddo preswyl yn eu hardal. Ategir hyn gan a.9A(2)(a) a (b) sy'n nodi bod rhaid i SCEau anfon y ffurflen ganfasio fwy nag unwaith a bod rhaid iddynt wneud ymholiadau o dŷ i dŷ ar un achlysur neu fwy. Gwneir darpariaeth bellach mewn perthynas â chynnal y canfas blynyddol yn Rheoliadau 31FA, 32ZA a 32ZB o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 a Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (yr Alban) 2001.

2.6. Pwrpas y canfas yw adnabod pawb a ddylai fod ar y gofrestr etholiadol. Mae hyn yn golygu adnabod dinasyddion a ddylai fod wedi'u cofrestru ond sydd heb eu cofrestru ar y pryd, yn ogystal ag adnabod etholwyr nad ydynt yn yr eiddo bellach ac a ddylai gael eu tynnu oddi ar y gofrestr o ganlyniad. Rhaid cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o'r gofrestr etholiadol erbyn 1 Rhagfyr[1] ar ôl cwblhau'r canfas blynyddol.

2.7. Rhaid i SCEau anfon ffurflen ganfasio flynyddol (a elwir yn Ffurflen Ymholiad Aelwyd (FfYA) ar hyn o bryd) i bob aelwyd. Mae'n ofynnol ymateb i'r FfYA, pa un a fu unrhyw newidiadau hysbysadwy yn yr aelwyd neu beidio. Mae peidio ag ymateb yn drosedd ac mae pŵer gan ynadon i osod dirwy o hyd at £1000. Rhaid i SCEau gymryd camau ar ôl unrhyw ddiffyg ymateb drwy anfon dau nodyn atgoffa ac ymweld â'r aelwyd, os bydd angen. Gellir ymweld â'r aelwyd ar unrhyw adeg; gellir cyfuno unrhyw un o gamau'r FfYA gychwynnol, e.e. cyfuno'r nodyn atgoffa cyntaf a'r ail â'r ymweliad â'r aelwyd, neu gellir cynnal hyn fel proses ar wahân. Rhaid anfon amlen gyfeiriedig wedi'i rhagdalu gyda phob FfYA bapur.

---

[1] Gellir gohirio cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig tan 1 Chwefror os cynhaliwyd etholiad yn yr ardal yn ystod y cyfnod canfasio.

2.8. Treialwyd modelau gwahanol ar gyfer cynnal y canfas blynyddol yn 2016 a 2017[1]. Yn ôl y gwerthusiad o'r cynlluniau treialu, mae'n glir bod budd mewn galluogi SCEau i dargedu eu hadnoddau'n fwy effeithiol ar yr eiddo hwnnw lle mae'r preswylwyr wedi newid a lle mae angen diweddaru'r gofrestr etholiadol. Byddai hyn yn caniatáu iddynt sicrhau bod eu hadnoddau'n cael eu targedu ar eiddo yn ôl yr angen, gyda phroses symlach ar gyfer yr eiddo hwnnw lle mae cyfansoddiad yr aelwyd heb newid.

2.9. Mae Deddf Cofrestru a Gweinyddu Etholiadol 2013 yn cynnwys pŵer eang yn adran 7 i ddiwygio neu ddiddymu'r canfas ym Mhrydain Fawr drwy is-ddeddfwriaeth. Y bwriad yw defnyddio'r pŵer hwn (a phwerau i wneud a diwygio rheoliadau a ddarparwyd gan Ddeddf 1983) i ddiwygio'r ddeddfwriaeth sy'n rheoli'r canfas blynyddol yn ystod 2019. Ein nod yw y bydd y cyfan o Brydain Fawr yn elwa o'r diwygiad hwn o ddechrau canfas blynyddol 2020.

2.10. Bydd angen gwneud deddfwriaeth hefyd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd yr Alban mewn perthynas â chofrestrau llywodraethau yng Nghymru a'r Alban. Oherwydd hyn, bydd angen tri Offeryn Statudol – un a hyrwyddir gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â chofrestr Seneddol y DU ym Mhrydain Fawr a'r gofrestr llywodraeth leol yn Lloegr, ac un bob un a hyrwyddir gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban mewn perthynas â'r cofrestrau llywodraeth leol yng Nghymru a'r Alban.

## Amcanion Diwygio'r Canfas

2.11. Y bwriad yw y bydd y ddeddfwriaeth sy'n rheoli'r canfas blynyddol diwygiedig yn llai cyfarwyddol ac felly'n fwy caniataol na'r ddeddfwriaeth bresennol. Amcanion diwygio'r canfas yw:

- gwneud y broses yn symlach a chliriach i ddinasyddion;
- rhoi mwy o ddisgresiwn i SCEau i redeg canfas wedi'i deilwra sy'n fwy addas i'w hardal leol;
- lleihau'r baich gweinyddol ar ysgwyddau SCEau a'r baich ariannol ar ysgwyddau trethdalwyr;
- sicrhau bod y cofrestrau'n parhau'n gyflawn a chywir;
- cynnal diogelwch ac uniondeb y cofrestrau;
- cynnwys gallu i arloesi a gwella, gyda model y gellir ei addasu yn ôl newidiadau yn y dyfodol.

[1] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/719824/Piloting_Alternative_Electoral_Canvassing_Models_-_Full_Report.pdf

2.12. Bydd pwrpas y canfas diwygiedig o aelwydydd yr un fath â’r pwrpas presennol, sef cael gwybod:

- enwau a chyfeiriadau personau sydd â hawl i gael eu cofrestru, ond sydd heb eu cofrestru’n barod;
- y personau hynny sydd ar y gofrestr ond sydd heb hawl bellach i gael eu cofrestru mewn cyfeiriad penodol (am eu bod wedi symud fel arfer).

2.13. Nid ydym yn bwriadu newid dyddiadau’r cyfnod pryd y bydd SCEau yn cynnal y canfas. Mater i ddisgresiwn SCEau o hyd fydd penderfynu pryd y maent yn dymuno dechrau canfasio. Bydd gofyniad o hyd i gyhoeddi’r gofrestr ddiwygiedig erbyn 1 Rhagfyr bob blwyddyn, yn ogystal â’r gallu i ohirio ei chyhoeddi tan 1 Chwefror os cynhelir etholiad yn eu hardal o fewn y cyfnod canfasio.

2.14. Mae’r canfas blynyddol yn rhan annatod o’r broses cofrestru gydol y flwyddyn. Bydd yr angen i SCEau gwblhau ymarferiadau i ddod o hyd i etholwyr newydd drwy gydol y flwyddyn a chadw eu cofrestrau’n gywir drwy’r amser (h.y. dileu cofnodion drwy gydol y flwyddyn) yn hanfodol er mwyn cyflawni’r diwygiadau’n llwyddiannus. Byddwn yn cydweithio’n agos â’r SCEau drwy gydol y cyfnod cyflawni i sicrhau bod ganddynt y gallu a’r offer sydd eu hangen i gynnal y broses canfasio ddiwygiedig yn llwyddiannus.

# 3. Y Model Canfasio Newydd

## Crynodeb

3.1. Bydd y canfas newydd yn cynnwys ‘cam data’ ar ddechrau’r broses. Bydd hyn yn rhoi gwybod i’r SCE, ar sail y wybodaeth sydd ar gael iddynt, ym mha eiddo y mae’n debygol na fydd cyfansoddiad yr aelwyd wedi newid, drwy baru ei ddata am etholwyr cofrestredig â data Llywodraeth cenedlaethol a, lle y bo’n berthnasol, ffynonellau data sy’n cael eu dal yn lleol. Lle bydd y data sydd gan y SCE am etholwyr cofrestredig yn cyfateb i ddata mewn set ddata arall sy’n gywir a dibynadwy, bydd y SCE yn gallu bod yn eithaf hyderus bod y manylion y mae’n eu dal ar ei gofrestr yn parhau’n gywir. Wedyn bydd y SCE yn dilyn un o ddau lwybr ar gyfer pob eiddo: bydd Llwybr 1, y llwybr ar gyfer eiddo wedi’i baru, yn cael ei ddefnyddio lle mae’r data yn awgrymu na chafwyd newid yng nghyfansoddiad yr aelwyd, a bydd Llwybr 2, y llwybr ar gyfer eiddo heb ei baru, yn cael ei defnyddio ar gyfer eiddo lle mae’r broses paru data yn dangos y posibilrwydd bod newid yn y wybodaeth y mae’r SCE yn ei dal ar y pryd am yr eiddo hwnnw. Bydd hyn yn caniatáu symleiddio’r broses canfasio ar gyfer yr aelwydydd hynny sydd heb newid ers y flwyddyn flaenorol. Bydd yn galluogi’r SCE i dargedu ei adnoddau ar y


mannau lle credir bod angen ymatebion a diweddariadau yn y gofrestr etholiadol. Mae'r ddeddfwriaeth ddrafft yn nodi'n glir y cysylltir ag etholwyr mewn eiddo Llwybr 1 a Llwybr 2 yn ystod y canfas i roi cyfle iddynt hysbysu'r SCE am unrhyw newidiadau yn ôl yr angen.

3.2. Bydd trydydd llwybr, Llwybr 3 – y llwybr eiddo pendant, ar gael ar gyfer mathau eiddo nad ydynt yn perthyn yn glir i Lwybrau 1 a 2. Oherwydd nodweddion y mathau hyn o eiddo, gall fod yn fwy effeithiol ac effeithlon i'r SCE gael gwybodaeth am breswylwyr drwy weithredu mewn ffordd wahanol, os yw'n gallu dynodi 'person cyfrifol' i ddarparu'r wybodaeth ar gyfer yr holl breswylwyr. Enghreifftiau o'r mathau eiddo hyn yw cartrefi gofal a neuaddau preswyl myfyrwyr. Os na fydd y SCE yn gallu cael gwybodaeth am yr eiddo gan 'berson cyfrifol', yna bydd angen iddo ganfasio'r mathau eiddo hyn drwy broses Llwybr 2. Bydd eiddo sy'n gymwys ar gyfer Llwybr 3 yn cael ei bennu ar ddechrau'r broses canfasio, ond ni fydd yn cael ei eithrio o'r cam paru data, sy'n cael ei esbonio mewn rhagor o fanylder yn Adran 6 isod.

3.3. Yn unol â'r bwriad y bydd pob uned eiddo yn cael cyfathrebiad canfasio, mae'r ddeddfwriaeth ddrafft yn dileu'r 'blwch ticio preswyliaeth unigol'. Fe'i cyflwynwyd yn 2016 fel un o nifer o fesurau i leihau costau cyn diwygio'r canfas ar raddfa fwy. Lle mae etholwr wedi nodi mai ef yw unig breswylydd yr eiddo, a lle nad oes gwybodaeth arall ar gael sy'n awgrymu fel arall, gall y SCE ddewis eithrio'r eiddo o'r canfas nesaf (neu'r canfas presennol, os yw eisoes wedi dechrau). Y syniad gwreiddiol oedd y byddai hyn yn lleihau costau'r canfas gan y byddai'n rhoi'r gallu i'r SCE eithrio cyfran o'r unedau eiddo o'r cylch canfasio.

3.4. Fodd bynnag, roedd y blwch ticio yn peri dryswch i nifer mawr o etholwyr. Rydym yn deall bod risg fawr o gyflwyno hysbysiadau anghywir oherwydd y dryswch hwn, oedd yn golygu bod nifer o SCEau yn amharod i ddibynnu ar wybodaeth y blwch ticio a'u bod yn parhau i anfon Ffurflen Ymholiad Aelwyd. Mae hefyd yn afresymegol, o dan y canfas diwygiedig, na fyddai cyfathrebiad yn cael ei anfon i eiddo ag un etholwr a'i ddata wedi'u paru tra byddai cyfathrebiad yn cael ei anfon i eiddo lle mae dau etholwr a'u data wedi'u paru. Felly bydd y blwch ticio yn cael ei dynnu o'r ddeddfwriaeth ddrafft a bydd y newid hwn yn cael ei adlewyrchu ar y wefan Cofrestru i Bleidleisio pan fydd y ddeddfwriaeth mewn grym.

*Y Model Canfasio Diwygiedig*




| | |
|---|---|
| ERO starts canvass | SCE yn dechrau'r canfas |
| Data Step... | Cam Data<br>Data cenedlaethol<br>Data lleol<br>Data eiddo gwag |
| Matched property | Eiddo a barwyd |
| Route 1 | Llwybr 1 |
| Unmatched property | Eiddo heb ei baru |
| Property group exemption... | Eithrio grwpiau eiddo<br>Eiddo wedi'i ddiffinio â pherson cyfrifol |


## Y Cam Paru Data

3.5. O dan y canfas diwygiedig, defnyddir proses paru data ar ddechrau'r canfas i helpu i ganfod yr eiddo hwnnw lle mae'n fwy tebygol y bydd y preswylwyr wedi newid. Bydd yn ofynnol bod yr holl SCEau ym Mhrydain Fawr yn paru data penodol y maent yn eu dal am etholwyr cofrestredig â set ddata genedlaethol. Mae'r ddeddfwriaeth ddrafft yn cynnwys defnyddio'r data sy'n cael eu cadw yn Warws Data Pensiynau'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP CIS). Mae'r set ddata hon yn cael ei defnyddio eisoes yn y broses cofrestru etholiadol i gadarnhau pwy yw'r ymgeisydd sydd am gofrestru. Gellir ystyried defnyddio setiau data cenedlaethol eraill hefyd yn y dyfodol.

3.6. Bydd SCEau yn cael arfer disgresiwn i baru'r data sydd ganddynt am etholwyr cofrestredig â setiau data lleol, yn ogystal â'u paru â'r set ddata genedlaethol. Ymysg y setiau data lleol y gellid eu defnyddio y mae cofnodion y dreth gyngor a setiau data eraill sy'n cael eu dal gan yr awdurdod lleol. Mae setiau data lleol ar

gael i'r SCE o dan ei bwerau presennol, sydd wedi'u darparu gan Reoliadau 23, 35 a 35A o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 a Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (yr Alban) 2001.

*Llif Gwaith y cam data*




| | |
|---|---|
| Recent additions… | Ychwanegiadau diweddar ac Etholwyr sy'n aros |
| Local data... | Paru data lleol |
| National data... | Paru data cenedlaethol |
| Empty property... | Paru data eiddo gwag |
| Matched individual | Unigolyn wedi'i baru |
| Unmatched individual | Unigolyn heb ei baru |
| Aggregate scores... | Sgoriau cyfanredol ar lefel yr eiddo |
| Matched property | Eiddo wedi'i baru |
| Unmatched property | Eiddo heb ei baru |

3.7. Bydd y broses paru data yn digwydd ar lefel yr etholwr unigol, drwy baru'r enw, dyddiad geni (os yw'n cael ei ddal) a chyfeiriad (ar ffurf cyfeiriad llinyn a'r Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN) os yw ar gael) ar gyfer data cenedlaethol, a thrwy baru'r enw a'r cyfeiriad llinyn neu UPRN ar y lleiaf ar gyfer data lleol. Rhoddir sgôr paru am bob unigolyn a anfonir i'w baru. Y sgôr paru hon fydd yn pennu a yw'r etholwr wedi'i baru neu heb gael ei baru. Bydd y canlyniadau hyn yn cael eu cyfuno wedyn ar lefel yr aelwyd.

## Paru data cenedlaethol

3.8. Bydd yn ofynnol i'r holl SCEau ym Mhrydain Fawr anfon enw llawn, dyddiad geni (lle mae ar gael) a chyfeiriad (ar ffurf llinyn yn ogystal ag UPRN lle mae ar gael) etholwyr cofrestredig neu'r rheini sydd ar fin cyrraedd oedran pleidleisio (h.y. yn cynnwys rhai 16-17 flwydd oed) i'w pharu â data cenedlaethol, i wirio'r data y maent yn eu dal am etholwyr cofrestredig yn erbyn data sy'n cael eu dal gan DWP. Bydd SCEau yn cael arfer disgresiwn i eithrio rhai etholwyr eraill o'r broses paru data – gweler 3.15 isod.

3.9. Anfonir y data drwy'r Gwasanaeth Digidol Cofrestru Etholiadol Unigol (IER DS) a byddant yn cael eu paru â data sy'n cael eu dal gan DWP. Mae'r IER DS yn gyfres o raglenni digidol cydgysyltiedig sy'n rheoli'r broses o dderbyn, trosglwyddo a phrosesu data ac mae'n cael ei ddefnyddio i brosesu rhaglenni er mwyn cofrestru o dan IER. Cwblheir y broses gan DWP a defnyddir IER DS fel cyfrwng diogel i drosglwyddo data'r SCE i DWP ac wedyn i ganiatáu i'r SCE adalw ei ganlyniadau am baru â data DWP.

3.10. Dylai pob SCE wneud hyn ar ddechrau ei broses canfasio bob blwyddyn. Darperir canllaw ar gynnal y cam paru data cenedlaethol i SCEau maes o law, yn ogystal â thaflenni cymorth gan Swyddfa'r Cabinet a'r Comisiwn Etholiadol.

## Paru data lleol

3.11. Bydd SCEau yn cael arfer disgresiwn i baru eu data am etholwyr cofrestredig â setiau data sy'n cael eu dal yn lleol, fel data y dreth gyngor a data budd-dal tai. Gallant weld y data lleol drwy arfer eu pwerau o dan Reoliadau 23, 35 neu 35A.[2] Yn achos rhai SCEau, bydd paru â data lleol yn ddull effeithiol i sicrhau bod y nifer mwyaf posibl o ddata cywir gan y SCE i'w cymharu â'i gofrestr. Hefyd gellir cael grwpiau penodol o bobl y bydd data lleol yn effeithiol iawn i ddod o hyd i'w cyfeiriad presennol.

3.12. Yn yr Alban, ni fydd y rhai 14-15 mlwydd oed sydd ar fin cyrraedd oedran pleidleisio yn cael eu hepgor o'r cam paru data cenedlaethol gan ei bod yn annhebygol y byddant yn ymddangos yn y data cenedlaethol a ddefnyddir. Yn lle hynny, gall y SCE baru'r unigolion hyn â data lleol, yn unol â'r broses bresennol ar gyfer cadarnhau pwy yw'r etholwyr ifanc hyn. Bydd hyn hefyd yn berthnasol i'r rheini sydd ar fin cyrraedd yr oedran pleidleisio yng Nghymru ar ôl i'r Senedd a Bil Etholiadau (Cymru) 2019 gael Cydsyniad Brenhinol a dod i rym, a fydd yn gostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol a llywodraeth leol yng Nghymru i 16.

---

[2] Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 a Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (yr Alban) 2001

3.13. Bydd SCEau yn rhydd i ddewis paru eu cofrestr cyfan â data lleol, neu ddefnyddio hyn yn ddetholus ar gyfer unigolion sydd heb eu paru â data DWP.

3.14. Yr agwedd bwysicaf ar baru â data lleol yw bod y SCE yn canolbwyntio ar ansawdd a chywirdeb wrth benderfynu pa setiau data i'w defnyddio. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd o gynlluniau treialu 2016/17 yn dangos y dylai eiddo gael ei gyfeirio ar hyd Llwybr 2, y llwybr ar gyfer eiddo heb ei baru, oherwydd mae'n cynnwys mwy o bwyntiau cyswllt â'r etholwr a rhagor o gyfleoedd i roi gwybod am newid. Drwy ddefnyddio data cywir iawn o ansawdd da, bydd y SCE yn gallu pennu'r llwybr cywir. Fodd bynnag, os bydd data o ansawdd gwael yn cael eu defnyddio, gallai hyn arwain at eiddo sydd wedi newid adroddiadau yn mynd ar hyd Llwybr 1. Gallai hyn ddylanwadu ar ba mor effeithiol yw'r canfas. Felly, bydd SCEau yn ystyried yn ofalus pa setiau data i'w defnyddio, gan edrych ar unrhyw ganllawiau a ddarparwyd gan Swyddfa'r Cabinet yn unol â'r Comisiwn Etholiadol.

## Eithrio o'r cam paru data

3.15. Bydd SCEau yn cael arfer disgresiwn i eithrio rhai etholwyr o'r cam data. Y grŵp cyntaf yw'r rheini sydd wedi gwneud cais llwyddiannus yn ddiweddar. Gellir dynodi ychwanegiadau diweddar at y gofrestr a gedwir gan y SCE yn rhai 'wedi'u paru' yn awtomatig yn y cam data. Y sail resymegol i hyn yw na ddylai fod angen i ymgeiswyr diweddar ailgadarnhau manylion eu cofrestriad mor fuan ar ôl ymgeisio, a phe byddent yn cael eu cynnwys yn y broses paru data, mae'n bosibl y gellid na fyddai modd eu paru oherwydd y graddau y mae data mewn setiau data eraill wedi cael eu diweddaru iddynt. Bydd SCEau yn cael arfer rhywfaint o ddisgresiwn i benderfynu beth yw ychwanegiad diweddar. Os penderfynir ar gais o fewn 90 diwrnod calendr ar y mwyaf cyn y diwrnod y mae'r SCE yn cynnal y broses paru data, yna bydd y SCE yn rhydd i ddewis peidio â chynnwys y cofnod hwnnw yn y broses paru data. Bydd SCEau yn gallu pennu cyfnod byrrach na hwnnw, hyd at ddim.

3.16. Bydd etholwyr wedi'u pennu yn cael eu heithrio'n awtomatig o'r cam paru data. 'Etholwyr wedi'u pennu' yw'r rheini a wnaeth gais llwyddiannus i'r SCE am gofrestru i bleidleisio. Gan na fydd eu henwau'n cael eu hychwanegu at y gofrestr nes cyhoeddi'r diweddariad misol nesaf o'r gofrestr, ni fyddant ar y gofrestr ar adeg y cam paru data, felly ni fydd y SCE yn cyflwyno eu manylion ar gyfer paru. Rydym yn credu bod y dull hwn o weithredu yn rhesymol gan na fydd mwy na 30 o ddiwrnodau wedi mynd heibio rhwng adeg penderfynu eu cais a'r cam paru data.

## Defnyddio canlyniadau'r cam paru data

3.17. Pwrpas y cam paru data yw helpu'r SCE i benderfynu pa lwybr y dylid ei ddilyn ar gyfer uned eiddo benodol. Bydd y paru'n digwydd ar lefel yr etholwr unigol, drwy baru ei enw, ei ddyddiad geni (os yw'n cael ei ddal) a'i gyfeiriad. Bydd y broses paru data cenedlaethol a lleol yn rhoi canlyniad 'wedi'i baru' neu 'heb ei baru' ar gyfer etholwyr unigol. Canlyniad wedi'i baru yw un lle mae'r wybodaeth am yr unigolyn wedi'i pharu â data DWP neu ddata lleol, neu'r ddau. Sgôr heb ei baru yw un lle doedd dim modd paru rhai neu'r cyfan o'r data a anfonwyd i'w paru. Yn achos y data cenedlaethol, bydd algorithm yn pennu, ar sail y gwahanol bwyntiau data sydd wedi'u paru neu heb gael eu paru, a yw'r unigolyn wedi'i baru neu heb gael ei baru yn gyffredinol.

3.18. Os bydd y SCE yn penderfynu defnyddio Llwybr 3, byddant yn cael dewis defnyddio canlyniadau'r cam paru data fel sail i'w penderfyniad ynglŷn â'r llwybr mwyaf priodol i'w ddefnyddio. Fodd bynnag, lle'u bod wedi nodi eiddo Llwybr 3 yn unol â'r meini prawf a nodir, does dim angen iddynt ystyried canlyniadau unrhyw ddata wedi'u paru wrth benderfynu a ddylid canfasio gan ddefnyddio Llwybr 3.

3.19. Os bydd y SCE yn dewis paru ei gofrestr gyfan â data lleol, a bod y canlyniad yn wahanol i ganlyniad y broses paru data cenedlaethol, mater i'r SCE fydd penderfynu pa rai o'r canlyniadau a barwyd y bydd yn eu defnyddio. Gan na fydd canlyniadau paru data cenedlaethol a lleol yn cael eu gosod mewn hierarchaeth, gall y SCE benderfynu y bydd yn derbyn pariad o'r naill set ddata neu'r llall neu, os yw'n ymddiried mewn un set ddata yn fwy na'i gilydd, y bydd yn gwrthod canlyniad a barwyd gan dderbyn canlyniad heb ei baru sy'n fwy cywir. Bydd cywirdeb y gwahanol setiau data a ddefnyddir yn ystyriaeth hanfodol wrth benderfynu ar hyn.

3.20. Yn ymarferol, gallai SCEau ddewis anwybyddu methiant i baru â data cenedlaethol neu leol, a chyn belled â bod y data eraill wedi'u paru yn eu bodloni, does dim newidiadau eraill yn angenrheidiol mewn perthynas ag eiddo penodol. Fodd bynnag, ni allai SCEau anwybyddu methiant i baru â data cenedlaethol yn ogystal â data lleol, oherwydd ni fyddai modd iddynt fod yn fodlon nad oedd angen gwneud newidiadau eraill yng nghyswllt yr eiddo hwnnw dan yr amgylchiadau hynny, ac ni fyddai'n cydymffurfio â'r safonau gofynnol.

3.21. Mae astudiaethau treialu a gynhaliwyd gan Swyddfa'r Cabinet yn 2012 yn dangos bod y data cenedlaethol yn gywir iawn wrth ddangos bod etholwr yn preswylio mewn eiddo ar y pryd. Y cywirdeb ar gyfer etholwr a barwyd oedd 95%. Mae lefel y cywirdeb yn is ar gyfer etholwyr a oedd heb eu paru. Er bod SCEau yn gallu bod yn weddol hyderus y bydd pariad â data DWP yn golygu bod yr etholwr yn parhau i breswylio yn yr eiddo, nid yw'r gwrthwyneb yn wir am fethiant i baru. Yn hytrach, bydd yn dangos bod rhywfaint o ansicrwydd ynghylch a yw'r etholwr yn bresennol o hyd. Mae hyn yn golygu y bydd rhai etholwyr sydd heb eu paru ac wedi'u cyfeirio ar hyd Llwybr 2 yn ymateb drwy ddweud eu bod yn parhau i breswylio yn yr eiddo.

3.22. Bydd pariadau ar lefel yr unigolyn yn cael eu cyfuno ar gyfer pob uned eiddo breswyl yn system EMS y SCE er mwyn rhoi cyfraddau paru ar lefel eiddo. Y

rheswm dros wneud hyn yw bod y canfas yn gweithredu ar lefel eiddo, hyd yn oed o dan y system Cofrestru Etholiadol Unigol. Er mwyn i eiddo gael ei ddynodi'n eiddo 'wedi'i baru', bydd angen i'r holl etholwyr a gofrestrwyd yn y cyfeiriad gael eu paru ar lefel yr unigolyn â data cenedlaethol neu ddata lleol (neu'r ddau).


3.23. Yn achos eiddo lle mae'r holl unigolion wedi cael eu paru, bydd y SCE yn gallu dilyn y broses Llwybr 1 (er na fydd gofyniad iddo wneud hynny). Ar gyfer eiddo lle mae rhai, neu'r cyfan, o'r preswylwyr cofrestredig heb gael eu paru, rhaid i'r SCE ddilyn y broses Llwybr 2 fwy dwys. Felly mae'r broses paru data yn helpu'r SCE i benderfynu pa eiddo a fydd yn mynd drwy'r broses lai drud a llai dibynnol ar adnoddau (Llwybr 1), a pha eiddo a fydd yn gorfod mynd drwy'r broses eiddo heb ei baru (Llwybr 2).

3.24. Dim ond lle mae canlyniadau'r cam data yn arwain y SCE i gredu na fu newid yn yr eiddo o ran y preswylwyr cofrestredig y bydd yr opsiwn i ganfasio eiddo drwy Lwybr 1 ar gael. Bydd hyn yn golygu bod yr holl breswylwyr wedi'u paru â data cenedlaethol a/neu leol, neu fod cais ganddynt wedi'i dderbyn yn llwyddiannus yn ddiweddar neu eu bod wedi'u hychwanegu at y rhestr yn ddiweddar (fel y disgrifiwyd uchod).

3.25. Nid oes gofyniad sy'n golygu bod rhaid rhoi eiddo ar Lwybr 1. Bydd SCEau yn cadw'r opsiwn i gynnal canfas Llwybr 2 ar gyfer unrhyw gyfeiriad. Mae'n bosibl y bydd rhai achosion lle mae'r SCE yn penderfynu cynnal canfas Llwybr 2 ar gyfer eiddo penodol, hyd yn oed lle mae'r holl unigolion yn y cyfeiriad hwnnw wedi'u paru â data.

3.26. Gall SCEau hefyd baru eiddo lle nad oes etholwyr cofrestredig ar y pryd drwy ddefnyddio data lleol. Os yw'r SCE wedi cael digon o ddata i gadarnhau bod yr eiddo yn wag ar y pryd neu y dylai aros heb etholwyr cofrestredig ynddo (h.y. bod preswylwyr yn yr eiddo ond nad oes yr un ohonynt yn gymwys i gael ei gofrestru i bleidleisio am nad ydynt, er enghraifft, yn bodloni'r meini prawf cenedligrwydd), yna bydd y SCE yn rhydd i'w drin fel eiddo lle mae'n annhebygol y bydd hysbysiad am newid, ac felly i'w roi drwy'r broses Llwybr 1. Os nad yw'r SCE wedi cael data i gadarnhau nad oes etholwyr cofrestredig yn yr eiddo, yna rhaid rhoi'r eiddo drwy Lwybr 2, y broses ar gyfer eiddo heb ei baru.

# 4. Llwybr 1 – Y Llwybr Eiddo wedi'i Baru




| | |
|---|---|
| Matched property | Eiddo wedi'i baru |
| e-communication... | e-gyfathrebu (Dewisol)<br>Ymateb yn ofynnol<br>- oni bai fod newidiadau |
| Response received | Cafwyd ymateb |
| Cycle complete | Cylch wedi'i gwblhau |
| Paper communication | Cyfathrebiad papur<br>Nid yw ymateb yn ofynnol |
| No response received | Ni chafwyd ymateb |

## Trosolwg

4.1. Bydd Llwybr 1 yn broses canfasio flynyddol fwy syml o'i chymharu â'r canfas presennol seiliedig ar ddeddfwriaeth a'r canfas Llwybr 2 newydd.

4.2. Bydd yn ofynnol i SCEau anfon cyfathrebiad at breswylydd/preswylwyr pob eiddo yn Llwybr 1. Bydd hyn yn rhoi cyfle ac anogaeth i breswylwyr yr eiddo hwnnw roi gwybod i'r SCE am unrhyw newidiadau. Os yw'r manylion y mae'r SCE yn eu dal ar ei gofrestr am yr eiddo yn gywir a chyflawn, ni fydd angen i bob aelwyd ymateb i'r broses canfasio.

4.3. Bydd dau ddewis ar gael i'r SCE: un ai anfon un cyfathrebiad ysgrifenedig rhagnodedig (Cyfathrebiad Canfasio A) i'r eiddo, neu anfon e-gyfathrebiad yn gyntaf ac wedyn y cyfathrebiad ysgrifenedig rhagnodedig (Cyfathrebiad Canfasio A) i'r eiddo lle na chafwyd ymateb. Bydd yr e-gyfathrebiad yn gwbl ddewisol.

## E-gyfathrebu o dan Lwybr 1

4.4. Bydd SCEau yn cael arfer disgresiwn, lle mae'r wybodaeth gyswllt angenrheidiol ganddynt, i anfon e-gyfathrebiad i eiddo Llwybr 1 yn y lle cyntaf. Mae'r diffiniad o

'e-gyfathrebu' yn eang ac yn cynnwys e-bost, SMS neu unrhyw fath arall o gyfathrebu electronig neu ddigidol.

4.5. Y bwriad yw rhoi cyfle i SCEau leihau costau argraffu a phostio, amser prosesu gan staff a hyrwyddo newid mewn cyfrwng i sicrhau rhagor o arbedion.

4.6. Am fod e-gyfathrebu yn gysylltiedig ag unigolyn a heb ei gysylltu'n uniongyrchol ag eiddo (yn yr un ffordd ag y mae cyfathrebu drwy'r post), bydd angen cael ymateb i e-gyfathrebiad Llwybr 1 i gadarnhau bod yr holl etholwyr yn parhau i breswylio yno. Os na fydd yr etholwr yn ymateb i e-gyfathrebiad o fewn cyfnod rhesymol, yna bydd SCE yn gorfod anfon Cyfathrebiad Ysgrifenedig Llwybr 1 i'r eiddo (Cyfathrebiad Canfasio A).

4.7. Os anfonwyd e-gyfathrebiad Llwybr 1, rhaid gofyn i'r derbynnydd/derbynwyr gadarnhau bod y manylion a ddarparwyd am bawb sy'n preswylio ar yr aelwyd yn gywir a chyflawn. Fel arall, os yw'r manylion yn anghyflawn neu anghywir, bydd y derbynnydd/derbynwyr yn gorfod hysbysu'r SCE a darparu'r manylion cywir. Bydd SCEau yn rhydd i ddefnyddio gwasanaeth ymateb ar-lein ar gyfer ymatebion os ydynt yn dymuno. Wrth ddefnyddio e-gyfathrebiad, bydd yn orfodol anfon y neges at bob etholwr yn y cyfeiriad hwnnw y mae gan y SCE fanylion cyswllt perthnasol ar ei gyfer (e.e. cyfeiriad e-bost neu rif ffôn ar gyfer SMS). Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod cynifer o unigolion â phosibl yn gallu derbyn yr e-gyfathrebiad.

4.8. Os bydd yn llwyddo i gael ymateb i'r e-gyfathrebiad o fewn cyfnod rhesymol, bydd y SCE yn gallu cwblhau'r broses heb anfon cyfathrebiad ysgrifenedig Llwybr 1.

4.9. Os bydd y SCE wedi cael gwybodaeth o'r eiddo, neu gan un o breswylwyr blaenorol yr eiddo, sy'n awgrymu bod cyfansoddiad yr aelwyd wedi newid, ond heb gael digon o wybodaeth i gwblhau'r cylch ailholi, bydd angen iddo roi'r eiddo ar Lwybr 2 (gweler adran 5).

## Anfon cyfathrebiadau ysgrifenedig i'r Eiddo o dan Lwybr 1 (Cyfathrebiad Canfasio A)

4.10. Bydd yn ofynnol i SCEau anfon cyfathrebiad ysgrifenedig Llwybr 1 rhagnodedig, Cyfathrebiad Canfasio A, i'r holl eiddo sydd heb ymateb i e-gyfathrebiad. Bydd hyn yn ganlyniad un ai i'r ffaith nad yw'r SCE yn dal y wybodaeth gyswllt berthnasol i anfon e-gyfathrebiad; neu fod y SCE yn dewis peidio ag anfon e-gyfathrebiad; neu nad yw'r preswylwyr wedi ymateb i'r e-gyfathrebiad o fewn cyfnod rhesymol.

4.11. Er y bydd preswylwyr yn gorfod rhoi gwybod i SCEau os bydd y wybodaeth a gyflwynwyd yn y cyfathrebiad yn anghywir neu'n anghyflawn, ni fydd gofyniad iddynt ymateb i gyfathrebiad canfasio papur os na chafwyd newid y maent yn gorfod rhoi gwybod amdano. Felly o dan y model canfasio diwygiedig, ni fydd gofyniad i SCEau ailholi ar ôl peidio â chael ymateb i'r cyfathrebiad ysgrifenedig

Llwybr 1 rhagnodedig (Cyfathrebiad Canfasio A). Ni fydd yn ofynnol i SCEau anfon unrhyw nodiadau atgoffa i’r eiddo nac ymweld ag ef. Gellir rhoi amlen gyfeiriedig wedi’i rhagdalu gyda’r cyfathrebiad hwn neu gellir cynnwys cyfeiriad Rhadbost os yw’r SCE yn dymuno gwneud hynny, ond ni fydd gofyniad i wneud hyn.

4.12. Bydd y cam paru data wedi rhoi sicrwydd rhesymol i’r SCE na fu newid yn y cyfeiriad. Bydd preswylwyr yr eiddo wedi cael cyfle i ddweud bod newid wedi digwydd. Os na fyddant yn gwneud hynny, mae’n rhesymol i’r SCE gymryd bod y gofrestr yn gywir ar gyfer yr eiddo hwnnw a chau’r canfas ar gyfer yr eiddo hwnnw. Bydd hyn yn lleihau’r costau a’r beichiau gweinyddol i swyddogion cofrestru yn sylweddol.

4.13. Bydd yn drosedd peidio â hysbysu’r SCE am newid mewn ymateb i gyfathrebiad canfasio Llwybr 1. Bydd hefyd yn drosedd darparu gwybodaeth anwir.

4.14. Bydd dyletswydd ar y Comisiwn Etholiadol i lunio’r cyfathrebiad ysgrifenedig Llwybr 1 rhagnodedig (Cyfathrebiad Canfasio A) a bydd SCEau yn gorfod defnyddio’r cyfathrebiad y bydd y Comisiwn Etholiadol yn ei lunio. Bydd y ddeddfwriaeth yn pennu y bydd y cyfathrebiad ysgrifenedig Llwybr 1 yn cynnwys y wybodaeth am etholwyr sy’n preswylio yn yr eiddo sy’n ofynnol ar gyfer y cyfathrebiad os yw’r SCE yn dal y wybodaeth honno.


4.15. Bydd angen iddo gynnwys y canlynol o leiaf:

- Enw llawn a chenedligrwydd pob etholwr cofrestredig 16 mlwydd oed neu’n hŷn yn Lloegr a 14 blwydd oed neu’n hŷn yng Nghymru ac yn yr Alban;
- Datganiad am y ffordd y bydd y data yn cael eu defnyddio a’u prosesu, yn unol â’r ddeddfwriaeth berthnasol ar ddiogelu data;
- Yng Nghymru a Lloegr, rhaid i’r SCE nodi, os yw’r wybodaeth hon ganddo, a yw unigolion yn 76 blwydd oed neu’n hŷn. Mae hyn yn angenrheidiol i alluogi SCEau i gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf Rheithgorau 1974 a Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

4.16. Bydd Cyfathrebiad Canfasio A hefyd yn nodi’r canlynol, ond yn ei gwneud yn glir mai dim ond lle mae’n ofynnol i’r aelwyd roi gwybod am newidiadau y bydd y wybodaeth hon yn gymwys:

- Dyddiad terfyn ar gyfer darparu ymateb;
- Lle y darperir ymateb, boed hynny ar-lein, dros y ffôn neu ar y ffurflen ei hun, y dylai’r ymatebydd ddatgan bod y wybodaeth a ddarperir yn wir.

# 5. Llwybr 2 – Y Canfas Eiddo heb ei Baru




| | |
|---|---|
| There must be... | Rhaid cael **o leiaf 3 ymgais i gysylltu** er mwyn cwblhau'r cylch a **rhaid bod dwy o leiaf yn gysylltiadau â'r eiddo** |
| A **prescribed canvass form...** | **Rhaid anfon ffurflen ganfasio ragnodedig** i'r eiddo o leiaf unwaith yn y cylch os na chafwyd ymateb |
| **The personal canvass...** | **Mae'r canfas personol yn orfodol.** Gellir ei gynnal drwy guro ar y drws neu dros y ffôn |
| **1st contact** | **Cyswllt cyntaf** |
| **2nd contact** | **Ail gyswllt** |
| **3rd contact** | **Trydydd cyswllt** |
| **Unmatched property** | **Eiddo heb ei baru** |
| **Must be to the property...** | **Rhaid cysylltu â'r eiddo**<br>(cyfathrebiad papur neu guro ar y drws)<br>Ymateb yn ofynnol |
| **ERO discretion...** | **SCE yn arfer disgresiwn ar y dull**<br>(gan roi sylw i'r rheolau uchod)<br>Ymateb yn ofynnol |
| **No response received** | **Ni chafwyd ymateb** |
| **Response received** | **Cafwyd ymateb** |
| Cycle complete | Cylch wedi'i gwblhau |

## Trosolwg

5.1. Ar ôl cael y canlyniadau o'r cam paru data, os yw'r data yn awgrymu bod newid wedi digwydd mewn perthynas â'r wybodaeth y mae'r SCE yn ei dal ar y pryd am eiddo ar ei gofrestr, rhaid dilyn proses Llwybr 2. Mewn achos lle mae'r diffyg paru yn gywir a bod dinasyddion newydd wedi symud i'r eiddo, a/neu breswylwyr blaenorol wedi ymadael, bydd yn hollbwysig i'r SCE gael y wybodaeth hon am newid. Yn yr un modd, os yw etholwr sydd heb ei baru yn parhau i breswylio yn yr

eiddo, bydd yn bwysig bod y SCE yn cael cadarnhad am hyn ar ffurf ymateb sy'n datgan na fu newid. Mae'r ddwy sefyllfa yn dibynnu ar y ffaith bod y preswylydd yn dychwelyd ei ymateb i'r SCE.

5.2. Bydd Llwybr 2 yn debyg i broses y canfas presennol sy'n cael ei chymhwyso at bob aelwyd. Ar lefel genedlaethol, rydym yn rhag-weld y bydd angen i tua chwarter yr holl aelwydydd ddilyn proses Llwybr 2, er y bydd hyn yn amrywio'n sylweddol rhwng y naill ardal a'r llall, yn ddibynnol, er enghraifft, ar b'un ai a yw'n ardal lle mae lefel uchel neu isel o'r boblogaeth yn troi allan.

## Y cylch tri chyswllt

5.3. O dan gylch Llwybr 2, bydd yn ofynnol i'r SCE fodloni''r gofynion sylfaenol a ganlyn:

5.3.1. Rhaid gwneud o leiaf dair ymgais i gysylltu yn ystod y broses canfasio.

5.3.2. Rhaid i'r ymgais gyntaf i gysylltu fod yn gyfathrebiad â'r eiddo (ysgrifenedig neu ymweliad â chartrefi), yn hytrach nag unigolyn.

5.3.3.Rhaid i ymgais bellach yn y broses hefyd fod yn ymgais i gysylltu â'r eiddo.

5.3.4. Bydd canfasio personol (galwad ffôn at etholwr sydd wedi'i baru neu ymweliad â chartrefi) yn ofynnol os na chafwyd ymateb, yn rhan o'r cylch canfasio.

5.3.5. Rhaid anfon y Ffurflen Ganfasio ragnodedig ar ryw bwynt yn y cylch, ynghyd ag amlen gyfeiriedig wedi'i rhagdalu.

5.4. Mae'n bwysig bod y SCE yn cysylltu â'r eiddo yn y lle cyntaf gan y bydd Llwybr 2 yn cael ei ddefnyddio lle mae'r broses paru data yn dangos bod amheuaeth ynghylch pwy yw preswylwyr presennol yr eiddo.

5.5. Yn ymarferol, er mwyn ceisio cysylltu â'r eiddo am y tro cyntaf, bydd angen i'r SCE un ai anfon cyfathrebiad ysgrifenedig i'r eiddo neu gynnal ymweliadau â chartrefi. Bydd dau opsiwn ar gael i'r SCE ar gyfer anfon cyfathrebiad ysgrifenedig i'r eiddo: cyfathrebiad ysgrifenedig wedi'i ragnodi (Cyfathrebiad Canfasio B), neu Ffurflen Ganfasio ragnodedig. Bydd y Comisiwn Etholiadol yn gyfrifol am lunio'r ddau gyfathrebiad hyn.

5.6. Os na fydd y SCE yn cael ymateb o'r eiddo o fewn cyfnod rhesymol, bydd y SCE yn ailholi drwy ail gam cysylltu. Os na fydd y SCE yn cael ymateb i'r ail gyswllt o


fewn cyfnod rhesymol, dylai ailholi drwy drydydd cam cysylltu. Bydd SCEau yn cael arfer disgresiwn o ran y dull cysylltu ar yr ail a’r trydydd cam: gall ddigwydd drwy’r post, e-bost, neges testun SMS, dros y ffôn, drwy ymweld â chartrefi neu drwy ddull cyfathrebu electronig arall. Bydd hyn yn galluogi’r SCE i addasu ei ddull o weithredu i’r ardal a’r etholwyr/eiddo sy’n gysylltiedig. Mae’n bwysig nodi bod y Treialon Canfasio yn 2016 a 2017 wedi dangos bod cymysgedd o ddulliau cyfathrebu yn gallu bod yn fwy effeithiol na defnyddio’r un dull cyfathrebu dro ar ôl tro.

5.7. Os yw’r SCE yn dal cyfeiriadau e-bost neu rifau ffôn symudol, gall ddewis anfon e-gyfathrebiad ar yr ail neu’r trydydd cam cysylltu. Os bydd yn gwneud hyn, bydd yn ofynnol iddo anfon e-gyfathrebiad at yr holl etholwyr a barwyd â data y mae ganddo fanylion cyswllt perthnasol ar eu cyfer. Mae hyn yn ofynnol oherwydd mae’n ei gwneud yn fwy tebygol y gellir cysylltu â’r aelwyd a chael ymateb, a byddai anfon e-gyfathrebiad at un etholwr a barwyd yn unig yn gallu codi amheuon am we-rwydo.

5.8. Yn rhan o gylch Llwybr 2, mae ymgais i gysylltu’n bersonol yn ofynnol. Byddai ymweliad â chartref neu alwad ffôn yn gallu cwrdd â’r gofyniad hwn. Os bydd y SCE yn dewis galwad ffôn fel ffordd i gwrdd â’r gofyniad am gyswllt personol, bydd yn ofynnol iddo ffonio’r holl etholwyr a barwyd yn yr eiddo y mae ganddo rif cyswllt ar eu cyfer, oni bai ei fod yn cael ymateb.

5.9. Os ceir ymateb ar unrhyw gam, bydd y cylch ailholi yn dod i ben ac ni fydd angen cysylltu wedyn i ganfasio (er ei bod yn bosibl y bydd angen i’r SCE gychwyn y broses Gwahoddiad i Gofrestru ar gyfer unigolion y mae eu henwau wedi’u hychwanegu at y ffurflen a ddychwelwyd, neu’r broses ddileu ar gyfer etholwyr nad ydynt yn ymddangos fel preswylydd mwyach, neu ar gyfer newidiadau eraill fel newid enw).

# 6. Llwybr 3 – Y Llwybr Eiddo Diffiniedig




| ERO identifies... | **SCE yn dynodi eiddo ar gyfer Llwybr 3**<br>Eiddo diffiniedig â pherson cyfrifol |
|---|---|
| Responsible individual... | Gall y person cyfrifol ddarparu data |
| Property excluded... | Cynnwys eiddo yn y cam paru data |
| Responsible individual unable... | Ni all y person cyfrifol ddarparu data |
| ERO uses data... | SCE yn defnyddio'r data yn unol â rheoliad 23 |
| Property follows... | Yr eiddo yn dilyn Llwybr 2 |

## Trosolwg a chymhwysedd

6.1. Y man cychwyn ar gyfer yr holl eiddo sydd heb ei baru fydd proses Llwybr 2. Fodd bynnag, fe fydd SCEau yn gallu penderfynu dilyn proses ganfasio wahanol ar gyfer mathau penodol o eiddo. Dylid cymhwyso'r broses eithrio hon at fathau eiddo penodol na ellir eu canfasio mor effeithiol wrth ddefnyddio proses Llwybr 1 neu Lwybr 2.

6.2. Bydd gan y SCE ddisgresiwn i ddilyn Llwybr 3 pan fydd yr eiddo dan sylw yn dangos dwy nodwedd eiddo perthnasol *a* phan fydd y SCE wedi canfod person cyfrifol sy'n dal gwybodaeth yn gyfreithlon am breswylwyr yr eiddo. Bydd angen i'r SCE gysylltu â'r person cyfrifol i ofyn am y wybodaeth sydd ei hangen gan ddefnyddio ei bwerau presennol[3]. Mae'r llwybr hwn yn ddewisol ac mae'n bosibl y bydd SCEau yn dewis peidio â'i ddefnyddio.

[3] Rheoliadau 23, 35 a 35A o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 a Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (yr Alban) 2001.

6.3. Bydd y mathau eiddo y bydd yn briodol defnyddio Llwybr 3 ar eu cyfer yn cael eu disgrifio mewn deddfwriaeth a bydd ganddynt un o'r nodweddion canlynol. Byddant un ai:

6.3.1. Yn eiddo â nifer o breswylwyr nad ydynt yn ffurfio eiddo unigol, lle mae'r SCE yn credu, o fewn rheswm, ei fod yn fwy tebygol o gael gwybodaeth am breswylwyr yr eiddo yn fwy effeithiol gan berson cyfrifol; neu

6.3.2. Yn eiddo lle mae'r SCE wedi ceisio danfon dogfen yn ystod y 18 mis diwethaf ond wedi methu gwneud hynny, a lle mae'r SCO, o fewn rheswm, yn credu ei fod yn fwy tebygol o gael gwybodaeth am breswylwyr yr eiddo gan berson cyfrifol. (Er enghraifft, efallai bod yr SCE wedi methu danfon dogfen oherwydd problemau â danfon drwy'r post).

6.4. Mae'r mathau canlynol o eiddo yn enghreifftiau o'r rheini a fydd yn gymwys i'w rhoi drwy broses Llwybr 3:

- Cartrefi gofal preswyl cofrestredig
- Tai Amlbreswyliaeth sydd wedi'u cofrestru gyda'r Awdurdod Lleol
- Llety myfyrwyr
- Hosteli

6.5. Mae'r ddeddfwriaeth ddrafft yn nodi'n benodol ei bod yn eithrio defnyddio Llwybr 3 ar gyfer bloc cyffredin o fflatiau.

## Proses canfasio Llwybr 3

6.6. Bydd angen i SCEau ystyried, o'r naill flwyddyn i'r llall, a fyddant am ddefnyddio Llwybr 3 yn eu canfas nesaf. Os byddant yn gwneud hynny, bydd angen iddynt adolygu a oes ganddynt y wybodaeth berthnasol am y person cyfrifol ac a yw'r eiddo'n dal yn bodloni'r meini prawf a nodir ar gyfer yr eiddo yma.

6.7. Os bydd yr SCE yn dechrau proses Cam 3, bydd angen iddo gysylltu â'r person cyfrifol a ddynodwyd, drwy ddefnyddio'r pŵer o dan Reoliad 23, i ofyn iddo ddarparu'r wybodaeth berthnasol am yr holl breswylwyr presennol. Y wybodaeth leiaf y dylai'r SCE ofyn amdani yw enw llawn, cenedligrwydd ac, os yw yng Nghymru neu Loegr, a yw'r person yn hŷn na 76 oed. Yn yr Alban, mae gofyniad i ofyn am ddyddiad geni unrhyw un sy'n 14 neu 15 oed. Lle mae'n dal y data hynny,

efallai y bydd angen i’r person cyfrifol ddarparu rhif ffôn a/neu gyfeiriad e-bost ar gyfer pob preswylydd hefyd.

6.8. Lle mae’r SCE yn llwyddo i gael rhestr o breswylwyr cymwys, bydd y data a ddarparwyd yn rhoi gwybod iddo pwy sy’n preswylio yn y cyfeiriad ac sydd wedi’i gofrestru’n gywir i bleidleisio, a hefyd yn dangos unigolion sydd heb gael eu cofrestru ond a all fod yn gymwys i gofrestru. Bydd y SCE hefyd yn gallu canfod rhai ar ei gofrestr nad yw’n ymddangos eu bod yn breswylwyr bellach, fel y gall gymryd y camau dilynol sydd eu hangen (fel adolygiad o gofrestriadau). Wedyn rhaid i’r SCE roi Gwahoddiadau i Gofrestru i unrhyw unigolion a nodwyd sydd heb eu cofrestru ar y pryd, a mynd ar eu hôl yn unol â’r ddeddfwriaeth os na fyddant yn ymateb.

6.9. Lle gwelir nad yw’n bosibl i’r SCE gael y wybodaeth ofynnol am breswylwyr cymwys gan y person cyfrifol o fewn cyfnod rhesymol, bydd y SCE yn gorfod troi’n ôl at broses Llwybr 2 (beth bynnag fo’r canlyniad paru data), sydd wedi’i disgrifio uchod.

# 7. Prawf Data Diwygio’r Canfas

7.1. Rhwng Gorffennaf 2019 a Chwefror 2020, rhoddir prawf ar y cam paru data newydd. Mae rhagor o wybodaeth am y cam paru data yn adran 2 uchod. Mae Swyddfa’r Cabinet wedi cyhoeddi canllawiau i helpu gweinyddwyr etholiadol i ddilyn y broses profi data.

7.2. Bydd y prawf data cenedlaethol yn galw am brofi gorfodol ar ddata cenedlaethol DWP ar gyfer yr holl SCEau. Bydd hyn yn digwydd ar ddechrau 2020 wedi i’r trefniadau profi yn Offerynnau Statudol ar Ddiwygio’r Canfas ddod i rym. Cymerir cyfrannau o ddata cenedlaethol o ddechrau cyfnod canfas 2019 a’u paru â’r gofrestr ar ddechrau’r canfas. Wedyn bydd canlyniadau’r paru yn cael eu cymharu â’r gofrestr ar ddiwedd y canfas i ganiatáu i SCE gynllunio adnoddau, gan y bydd canlyniadau’r prawf yn dangos i’r SCE ba gyfrannau o’i etholwyr a fyddai wedi dilyn Llwybrau 1, 2 a 3. Bydd canlyniadau’r prawf paru data cenedlaethol yn cael eu rhannu â’r SCEau yn fuan ar ôl cynnal y prawf.

7.3. Bydd dewis hefyd gan y SCE i brofi ffynonellau data lleol. Os bydd yn dewis gwneud hynny, bydd y prawf paru data lleol yn cael ei gynnal, os oes modd, yn ystod canfas 2019, ac ar yr hwyraf cyn cynnal y prawf paru data cenedlaethol.

7.4. Bydd profi data lleol cyn eu defnyddio mewn cam paru data byw o dan y canfas diwygiedig yn sicrhau bod y SCEau ddim ond yn defnyddio data lleol os yw’n fuddiol. Dylai data lleol ddarparu data paru sy’n ategol i’r data paru cenedlaethol gofynnol, oherwydd os yw data paru lleol yn gorgyffwrdd â data paru cenedlaethol, bydd buddion y data hynny yn gyfyngedig. O ganlyniad i hynny, cynghorir yn gryf

bod SCEau yn profi unrhyw ddata lleol maent yn dymuno ei ddefnyddio o dan y canfas diwygiedig cyn cynnwys y data mewn cam paru data byw.

7.5. Mae’n bwysig nodi, hyd yn oed os na lwyddodd SCE i brofi data lleol yn y Prawf Data i Ddiwygio’r Canfas, gall brofi data lleol o fewn unrhyw ganfas o 2020 ymlaen, gan ddibynnu ar ddata cenedlaethol yn unig ar gyfer y canfas diwygiedig cyntaf. Felly, does dim angen mynd yn fyw gyda data lleol heb ei brofi.

7.6. Cafodd rhannau I a II o’r Canllaw ar Brawf Data Diwygio’r Canfas eu cyhoeddi ochr yn ochr â’r Datganiad Polisi Interim ym mis Mawrth 2019. Mae’r Canllaw ar Brawf Data Diwygio’r Canfas yn amlinellu’r camau paratoi y mae’n rhaid i SCEau eu cwblhau cyn cynnal y prawf (Rhan I) yn ogystal â’r camau sydd angen eu cymryd i gasglu a defnyddio data lleol os byddant yn dewis gwneud hynny (Rhan II).